**Cyngor Partneriaeth Cymru – 8 Tachwedd 2023 – Diweddariad Newid Hinsawdd CLlLC**

## Pwrpas

1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad byr ar gynnydd ers cyfarfod diwethaf y Cyngor Partneriaeth. Mae'n gwneud nifer o argymhellion sy'n deillio o waith y pedwar grŵp tasg a gorffen a sefydlwyd gan Banel Strategaeth yr Hinsawdd.

## Cefndir

2. Roedd adroddiad i gyfarfod diwethaf y Cyngor Partneriaeth ar 10 Gorffennaf yn nodi manylion am sefydlu pedwar grŵp tasg a gorffen i weithio ar weithredu'r ymrwymiadau i lywodraeth leol sydd yn 'Cymru Sero Net' (sydd wedi'i gynnwys eto yn Atodiad 2). Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar nifer o argymhellion penodol sy'n codi o waith y grwpiau hyn. Mae Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o gynnydd ar gwaith pob un o'r grwpiau hynny.

**Datblygiadau allweddol yn deillio o weithgareddau y Panel Strategaeth yr Hinsawdd yn y chwarter hwn:**

3. Mae rownd gyntaf y **Grant Gwres Carbon Isel** Llywodraeth Cymru, a gyflwynwyd o ganlyniad i waith Panel Strategaeth yr Hinsawdd wedi chwblhau. Cafodd pum Cyngor[1] gyfanswm o £11.06m am 34 adeiladau yn y rownd gyntaf o ddyfarniadau. Mae'r ail rownd bellach ar fynd.

4. Mae ymarfer am gynnydd **gwaith cydweithredol i gaffael cerbydau trydan** bellach ar fyn, a deuddeg Cyngor yn rhan o archeb gyfun o 251 o gerbydau. Rhoddodd Miller adborth i'r Panel Strategaeth yr Hinsawdd ar eu hasesiad o gynnydd gwaith Cynghorau ar liniaru ac addasu. Gan nodi bod llawer eto i'w wneud o safbwynt **lliniaru**, roedd Miller yn croesawu cynnydd y grwpiau tasg a gorffen, a oedd eisoes yn datblygu rhai o'r camau gweithredu roeddent wedi'u hargymell.

5. Roedd llai o gynnydd ar waith **addasu**, ac mae angen rhoi mwy o sylw i hynny. Bydd cyfarfod mis Tachwedd Panel Strategaeth yr Hinsawdd yn canolbwyntio ar addasu/gwytnwch a fydd yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd ar gynnydd yng Nghymru. Cynigir sefydlu grŵp tasg a gorffen arall i Banel Strategaeth yr Hinsawdd ar addasu.

---

[1] Casnewydd, Sir Gâr, Sir Ddinbych, Blaenau Gwent, Torfaen, Caerffili, Conwy, Sir y Fflint, Bro Morgannwg ac Ynys Môn). Cyflwynwyd cyfanswm o 14 o geisiadau ac mae trafodaethau'n parhau ar nifer o'r rhain.

6. Yn olaf, bu trafodaeth am yr uchelgais sero net a gwrthbwyso. Gwnaeth rhai cynghorau ymrwymiad cynnar i weithio tuag at sero net *ar eu pen eu hunain*. Fodd bynnag, mae'r rhagolygon y bydd pob cyngor yn gallu cyflawni'r nod hwn yn gyfyngedig. Mae'n bwysig nodi mai'r nod gwirioneddol yn Sero Net Cymru yw i cyflawni hyn ar y cyd ar draws y sector cyhoeddus. Er enghraifft, mae CNC yn debygol o fod yn 'garbon-positif' oherwydd ei goedwigaeth a'i fawndiroedd (felly maent yn atafaelu mwy o garbon nag y maent yn ei ollwng).

7. Yn gysylltiedig â hyn, mae rhai cynghorau wedi edrych ar wrthbwyso fel ffordd o gyrraedd y targed sero net, pe disgwylir i'w hymdrechion datgarboneiddio eu hunain fod yn annigonol. Mae'r ffaith bod sero net yn gyfrifoldeb ar y cyd yn bwysig i'w gofio yn hyn o beth. Yn ogystal, mae adnoddau'n canolbwyntio'n well ar fesurau datgarboneiddio lle bynnag y bo'n ymarferol (yn enwedig gan nad yw gwrthbwyso o reidrwydd yn ddewis 'rhatach').

**Argymhellion**

8. Argymhellir bod:

i. **Defnydd tir:** Mae cynghorau'n nodi ac yn defnyddio'r offeryn a'r canllawiau defnydd tir (Adnodd Mapio Atafaelu Tir a Charbon – CLlLC) a gynhyrchwyd gan y Grŵp Tasg a Gorffen (ysgrifennodd y cadeirydd, Wendy Walters, at yr holl Arweinwyr a Phrif Weithredwyr ynghylch eu lansiad yn ddiweddar)

ii. **Caffael:** Mae cynghorau'n nodi ac yn defnyddio'r pecyn cymorth a chanllawiau Caffael Cynaliadwy (Adnoddau – Caffael – CLlLC)

iii. **Trafnidiaeth:** nodir cynnydd gyda chaffael cydweithredol ac mae cynghorau'n ystyried ymgysylltu â chaffael ar y cyd pellach; cefnogi gwaith i annog a chefnogi newid moddol wrth deithio i'r gwaith

iv. **Adeiladau:** Mae cynghorau'n datblygu prosiectau i gyflwyno ceisiadau am gymorth o rowndiau pellach y Grant Gwres Carbon Isel; nodir y pryderon sy'n dod i'r amlwg gan y Grŵp Tasg a Gorffen ynghylch cost yr ymrwymiad i ddatgarboneiddio adeiladau

v. **Uchelgais Sero Net:** cydnabyddir yr uchelgais hwn fel un ar y cyd ac y dylid ystyried unrhyw allyriadau gweddilliol ar lefel Cymru, gan ystyried defnyddio gwrthbwyso fel y dewis olaf yn unig

vi. **Grŵp Tasg a Gorffen addasu:** y cynllun i sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen addasu wedi'i gymeradwyo.

**ATODIAD 1 - Diweddariadau gan y Grwpiau Tasg a Gorffen**

## (i) Caffael (Cadeirydd, Nigel Brinn, Cyfarwyddwr Gweithredol, Powys)

8. Mae'r Grŵp Caffael wedi cynnal pedwar gyfarfod hyd yma, ac mae cyfarfodydd misol yn y dyddiadur dros y misoedd nesaf.

9. Mae'n gweithio'n agos gyda rhwydwaith swyddogion caffael Cymru. Casglwyd 'pecyn gwaith' o wybodaeth ynghyd gyda chyngor a chymalau y mae modd eu defnyddio i annog a chymell cadwyni cyflenwi cynaliadwy (gweler Adnoddau – Caffael - CLlLC). Bydd gofyn i rai cyflenwyr gyflwyno **Cynlluniau Lleihau Carbon** sy'n dynodi'r camau y byddant yn eu cymryd i leihau eu hôl-troed carbon. Gan fod nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu prynu'n gyfrifol am 60–70% o allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â gwaith Cynghorau, mae hwn yn faes allweddol i ddatblygu arno.

10. Mae trafodaethau wedi bod ynglŷn â'r trothwy (o ran gwerth y caffaeliad) y dylid gofyn i gyflenwyr ddarparu'r Cynlluniau Lleihau Carbon hyn. Yn wreiddiol, y cynnig oedd gosod hwn ar £25,000 i sicrhau ei fod yn berthnasol i nifer o drafodion prynu. Mynegwyd rhai pryderon am hyn gan Fwrdd Gweithredol CLlLC, Swyddfa Gabinet y DU a Ffederasiwn Busnesau Bach (sydd â chynrychiolydd ar y grŵp). Y pryderon yw bod y lefel yn rhy isel, felly gallai roi pwysau ychwanegol ar rai busnesau bach a chanolig a chreu goblygiadau trawsffiniol. Mae Ffederasiwn Busnesau Bach wedi cynnig y dylai trothwyon fod yr un fath â symiau cyn-Gyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer gwasanaethau cyflenwi a chontractau dylunio (€215,000 neu tua £186,000). Mae trafodaethau'n parhau ynglŷn â'r trothwy, ond mae'r egwyddor cyffredinol o fod angen Cynllun Lleihau Carbon ar gyfer cyflenwadau penodol yn cael ei dderbyn.

11. Mae gweithdai wedi'u cynnal gyda swyddogion caffael i gael adborth ar eu defnydd diweddaraf o'r 'pecyn gwaith' a ddarparwyd. Yn y gweithdy diweddaraf ym mis Medi, nodwyd ambell fwlch a chyfle am fwy o hyfforddiant.

12. Ar sail yr adborth hwn, mae ffordd ymlaen wedi'i chytuno fel a ganlyn:

    - Llunio **pecyn adnoddau/map proses** o'r holl weithgarwch sy'n cael ei wneud mewn perthynas â chaffael cynaliadwy yn y sector cyhoeddus, i gynnwys nid yn unig pecyn gwaith CLlLC, ond Asesiad Risg Cynaliadwy Llywodraeth Cymru hefyd (Nodyn Polisi Caffael Cymru WPPN 01/23: Caffael - asesiadau risg cynaliadwyedd | LLYW.CYMRU), cyfrifiannell garbon wedi'i datblygu gan Rondda Cynon Taf (Cyfrifiannell Ôl Troed Carbon - Dinesydd (rctcbc.gov.uk)), gwaith sy'n

cael ei wneud gan Gasnewydd gyda'u cyflenwyr (Adeiladu Dyfodol Cynaliadwy: Taith Cyngor Dinas Casnewydd i Ddatgarboneiddio Caffael - Caffael CYD), a manylion cymorth i gyflenwyr sydd ar gael trwy Busnes Cymru (Y Weledigaeth Werdd | Busnes Cymru (gov.wales)). Bydd cyfeiriadau'n cael eu cynnwys er mwyn caffael yn ôl yr arfer orau, gan ddefnyddio adnoddau ac offerynnau sydd ar gael ar bob cam.

- Mae **diweddariad i gael ei wneud i becyn gwaith CLlLC** er mwyn darparu mwy o ofynion am fanylebau mewn perthynas â gofal cymdeithasol. Gofal cymdeithasol yw un o brif feysydd gwariant awdurdodau lleol. Mae tua 80% o'r gwasanaeth yn cael ei gomisiynu i ddarparwyr sector preifat, sy'n ei wneud yn faes allweddol i'w dargedu o ran lleihau allyriadau sy'n deillio o gaffael gwasanaethau.

- Bydd rhagor o **gymorth a hyfforddiant** yn cael ei ddarparu ar ddefnyddio cynlluniau lleihau carbon yn y broses gaffael. Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant manwl ar sut a phryd i ofyn am gynllun lleihau carbon, sut i siarad gyda chyflenwyr am Gynlluniau Lleihau Carbon a sut i feithrin hyder yn yr adnoddau sydd ar gael i lunio'r Cynlluniau.

## (ii) Cludiant (Cadeirydd: Mark Shephard, Prif Weithredwr, Pen-y-bont ar Ogwr)

13. Mae'r grŵp cludiant yn trafod yn agos gyda Chymdeithas Trysoryddion Cymru sydd wedi arwain ar yr ymarfer caffael cydweithredol y soniwyd amdano yn uchod. Cydnabyddir mai ond tua 6% o holl gerbydau Cynghorau yw'r 251 o gerbydau trydan, felly mae llawer o gynnydd eto i'w wneud. Yn ystod y gwaith, mae sawl 'myth' wedi dod i'r amlwg, ac mae'r grŵp yn gweithio ar lunio gwybodaeth i daro'n erbyn y rheiny er mwyn helpu i oresgyn amharodrwydd i newid a dechrau datblygu cynlluniau i drosi'r fflydoedd.

14. Mae'r grŵp hefyd wedi nodi bod **cymudo** yn parhau i gyfrif am gyfran sylweddol o allyriadau, er gwaethaf twf gweithio gartref. Mae'n bwriadu casglu gwybodaeth ynghyd am fentrau sydd wedi'u defnyddio'n llwyddiannus gan gynghorau i annog newid moddol yn unol a Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a rhannu manylion ac adnoddau am yr arferion da hynny (e.e. costau, deunydd hyrwyddo). Gallai hyn gynnwys darparu cynlluniau teithio wedi'u personoli, cynlluniau aberthu cyflog i gefnogi prynu beiciau neu docynnau cludiant cyhoeddus, gosod isadeiledd gwefru i gefnogi gyrwyr cerbydau trydan, cynlluniau i alluogi swyddogion Cynghorau i ddefnyddio cerbydau trydan Cynghorau a'u gwefru gartref, darparu cawodydd a lle diogel i gadw beiciau ac annog beicio i'r gwaith lle bo hynny'n ymarferol.

15. Mae **cymudo** yn aml yn gysylltiedig â siwrneiau 'Fflyd llwydion' mae swyddogion yn eu gwneud gan ddefnyddio eu ceir eu hunain ar siwrneiau gwaith. Mae Gwasanaethau Ynni Llywodraeth Cymru wedi gwneud llawer o waith yn edrych ar botensial ceir Cyngor, gan ddangos yr arbedion costau a charbon mae modd eu gwneud â fflyd drefnus o geir Cyngor. Fe wnaethant gyflwyniad yng nghyfarfod diwethaf y grŵp gan gyfeirio at y dull a ddilynwyd yn y gwasanaeth iechyd. Mae cyfleoedd i gydweithio ar y mater gyda'r gwasanaeth iechyd, neu ar draws y sector cyhoeddus ehangach, a bydd y grŵp yn edrych yn fanylach ar hyn.

16. Mae **optimeiddio llwybrau** wedi'i nodi fel maes arall a allai greu arbedion cost ac allyriadau sylweddol. Mae eisoes yn cael ei ddefnyddio mewn rhai meysydd gwasanaeth (e.e. ar gyfer casgliadau gwastraff) ond mae'r grŵp am ymchwilio i gyfleoedd i'w weithredu'n ehangach.

## (iii) <u>Tir (Cadeirydd: Wendy Walters, Prif Weithredwr, Sir Gâr)</u>

17. Mae'r grŵp Tir wedi bod yn datblygu ar waith a wnaed i CLlLC gan Costain a Netherwood Sustainable Futures, oedd yn cynnwys **adnodd digidol datgarboneiddio ar y tir** a chanllawiau ategol.

18. Mae'r offeryn, a ddatblygwyd gan Costain, wedi'i dreialu gan Sir Gâr a Sir y Fflint. Mae'n cynnwys haenau o wybodaeth sydd ar gael trwy MapDataCymru. Ar ôl y peilot, bydd Costain yn gweithio gyda phob awdurdod lleol, gan ddarparu hanner diwrnod o gefnogaeth i egluro sut mae ei ddefnyddio. Bydd yn galluogi cymharu opsiynau defnydd tir gwahanol, gan nodi gwahanol oblygiadau carbon pob un. Yn bwysig, bydd modd diweddaru'r offeryn wrth i ffynonellau data newydd, mwy cyfredol ddod ar gael. Daw'r offeryn gyda chanllawiau technegol er mwyn egluro i swyddogion sut mae ei ddefnyddio.

19. Yn ogystal, mae **adroddiad canllaw** Tir a Chasglu a Storio Carbon wedi'i lunio, sy'n annog ystyried goblygiadau newidiadau corfforaethol mewn ffordd nad yw'n rhagnodi. Ei fwriad yw cynorthwyo dealltwriaeth uwch reolwyr a rheolwyr canol a swyddogion technegol sydd angen cyngor ar beth yw casglu a storio carbon. Mae'n egluro geirfa berthnasol a sut i gefnogi gwneud penderfyniadau ar sail carbon. Mae'r grŵp yn bwriadu lansio'r offeryn a'r canllawiau a bydd yn eu hyrwyddo i Arweinwyr a Phrif Weithredwyr pob Cyngor.

20. Yn ei ail gyfarfod, roedd swyddogion MapDataCymru yn bresennol i roi cyflwyniad ar ddefnyddio'r offeryn i'r grŵp cyfan. Fe wnaeth y grŵp hefyd ystyried mater allweddol **gofynion sgiliau**. Roedd cynrychiolwyr o'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn bresennol. Un o'r ymrwymiadau penodol a wnaed yn 'Cymru Sero Net' oedd datblygu sgiliau mewn perthynas ag adfer

mawndir a bydd hyn yn un elfen o'r gwaith hwn.

21. Bydd y grŵp hefyd yn ystyried y mater **gwrthbwyso**. Trefn yw hon o dalu am weithgarwch lleihau carbon fel 'iawndal' am greu allyriadau. Dyma'r 'dewis olaf' ac ni ddylid ei gyfrif fel dewis amgen 'hawdd' i fynd i'r afael â datgarboneiddio'n uniongyrchol. Yn wir, mae rhywfaint o waith archwiliadol yn Ne Orllewin Cymru'n awgrymu y gallai fod yn llawer mwy costus, ac y gellid gwario arian yn well ar fesurau i leihau allyriadau mewnol yr awdurdod.

## (iv) Adeiladau (Cadeirydd: Graham Boase, Prif Weithredwr, Sir Ddinbych)

22. Cylch gwaith y grŵp Adeiladau yw datblygu cynllun strategol i ddatgarboneiddio adeiladau Cynghorau. Yn ei gyfarfod cyntaf, cytunodd y grŵp y dylai hyn gynnwys swyddfeydd, tai ac ysgolion, yn ogystal ag unrhyw eiddo arall mae Cynghorau'n eu rheoli (e.e. unedau diwydiannol).

23. Mae'r grŵp yn ceisio dynodi faint o gyflawniadau bach cyflym sydd eisoes wedi'u defnyddio o ran **opsiynau ôl-osod** syml. Mae trafodaethau ar fynd gydag Ystadau Cymru i ddarganfod pa wybodaeth sydd eisoes ac a oes angen comisiynu gwaith ychwanegol i bennu'r sefyllfa ar hyd a lled Cymru.

24. Awgrymwyd y gallai cyfleoedd fod i gytuno ar ddulliau cyson ar draws Cynghorau a **chydlynu gwaith caffael** (e.e. ar baneli solar). Gellid trefnu i fenthyca er mwyn hwyluso hyn lle mae disgwyl taliadau yn ôl. Mewn rhai achosion (e.e. pympiau gwres) efallai na fyddai taliadau yn ôl, ond efallai y bydd arbedion trwy brisiau is am unedau.

25. Fodd bynnag, codwyd cwestiwn o ran pa mor bell i fynd ar ôl cyfleoedd o'r fath. Mae rhai cynghorau wedi gwneud gwaith i amcangyfrif cost datgarboneiddio eu hystâd gyfan ac mae'r swm yn gannoedd o filiynau o bunnoedd. Hyd yn oed pe bai cyllid felly ar gael, gofynnodd y grŵp ai dyna fyddai'r defnydd mwyaf effeithiol o'r arian neu a fyddai modd gwneud mwy o arbedion carbon trwy fesurau amgen? Mae angen **pennu costau ac arbedion carbon disgwyliedig** gwahanol ymyraethau er mwyn gallu eu cymharu. Mae CLlLC wrthi'n trafod gyda Phartneriaethau Lleol sydd wedi datblygu methodoleg a allai fod yn gymorth â hyn, ond mae angen trafod rhagor.

26. Datblygwyd cynllun gwaith i'r grŵp ei ystyried yn ei ail gyfarfod. Mae'n cynnig ffrydiau gwaith ar y canlynol:
    - Gweithio ar gynllun strategol i ddatgarboneiddio adeiladau
    - Monitro cynnydd cynghorau ar ddatgarboneiddio eu hadeiladau
    - Cyllid (yn cynnwys e.e. opsiynau benthyca a chaffael cydweithredol)
    - Asesu potensial lleihau carbon adeiladau mewn perthynas ag opsiynau amgen.

**ATODIAD 2 – Cynllun gwaith y Rhaglen Newid Hinsawdd**

Dangosir yr ymrwymiadau a wnaed gan lywodraeth leol ac sydd wedi'u cynnwys yn Sero Net Cymru yng ngholofn chwith y tabl isod. Mae'r ochr dde yn rhoi enghreifftiau o rywfaint o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan raglen gymorth CLlLC.

Mae rhaglen barhaus o ddosbarthiadau meistr wedi bod yn rhedeg i rannu arfer gorau. Mae rhaglen arweinyddiaeth hefyd yn cael ei chynnal, gan ddod ag Aelodau a swyddogion ynghyd i ystyried enghreifftiau o'r byd go iawn a rhannu safbwyntiau. Mae strategaeth gyfathrebu hefyd yn cael ei datblygu i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n eang ar draws yr holl gynghorau a gweithgorau perthnasol.

| Ymrwymiadau Llywodraeth Leol Cymru Sero Net | |
|---|---|
| | **Cefnogaeth y Rhaglen Cefnogi Pontio ac Adfer** |
| **Adeiladau**<br>• Datblygu a chyflawni cynllun strategol i ddatgarboneiddio ystâd awdurdodau lleol<br><br>Ystadau Cymru fel yr arweinydd strategol;<br>• Cynllun strategol i ddatgarboneiddio adeiladau erbyn diwedd 2023<br>• Sicrhau bod pob adeilad cyhoeddus yn cael eu gwresogi â gwres carbon isel erbyn 2030<br>• Pob adeilad sector cyhoeddus newydd yn cael ei hadeiladu i safon sero net | • Dosbarth Meistr Datgarboneiddio ar Adeiladau wedi'i gynnal ar 16 Chwefror yn rhannu'r arfer orau ar ôl-osod ar adeiladau hŷn<br>• Banc adnoddau ar y wefan. Rhywbeth parhaus ac yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd |
| **Caffael**<br>• Datblygu dealltwriaeth o broffil allyriadau yr holl nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu caffael erbyn diwedd 2022<br>• Manylebau lleihau carbon ym mhob contract newydd neu ddiwygiedig<br>• Canolbwyntio ar nifer o gontractau blaenoriaeth a rhannu'r hyn sy'n cael ei ddysgu o ran datgarboneiddio ar draws ALlau erbyn diwedd 2022 – i ddatblygu dull datgarboneiddio ar gyfer pob contract erbyn 2023 | • Wedi comisiynu cefnogaeth ar gaffael ac allyriadau cwmpas 3<br>• Yn cynllunio dosbarth meistr ar gaffael at ddiwedd eleni<br>• Banc adnoddau ar y wefan. Rhywbeth parhaus ac yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd |
| **Symudedd a Chludiant**<br>• Adeiladu ar adolygiadau fflydoedd i drawsnewid fflydoedd, yn cynnwys isadeiledd gwefru cerbydau trydan, pob car newydd a cherbyd nwyddau ysgafn yn gerbydau allyriadau isel iawn erbyn 2025, lleihau ôl-troed carbon bysiau, tacsis a cherbydau hurio preifat i ddim erbyn 2030<br>• Adolygiad o'r fflyd lwyd i gael ei gwblhau erbyn diwedd 2022 (yn gweithio gyda Gwasanaeth Ynni LIC)<br>• Cefnogi gweithio o bell lle bo modd, gartref neu mewn canolfannau. Annog pobl i ddefnyddio cludiant cyhoeddus a dulliau teithio llesol | • Wedi comisiynu cymorth wedi'i dargedu ar isadeiledd a chludiant carbon isel sy'n canolbwyntio ar sgiliau, gwneud yr achos busnes, cynllunio a'r fflyd lwyd<br>• Dosbarth meistr ar Gludiant wedi'i gynnal ar 19 Ionawr, ac wrthi'n cynllunio dosbarth meistr ar Deithio Llesol gydag astudiaethau achos gan Gyngor Dinas Nottingham<br>• Banc adnoddau ar y wefan. Rhywbeth parhaus ac yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd |
| **Defnydd Tir**<br>• Mapio daliadau tir awdurdodau lleol erbyn mis Ebrill 2022 i ddynodi'r mathau o dir a'u potensial ar gyfer casglu a storio carbon, ynni adnewyddadwy a rheoli llifogydd<br>• Casglu a storio carbon yn cael ei ystyried yn ddiben creiddiol i dir cyhoeddus gan arweinwyr<br>• Datblygu rhaglen hyfforddiant a phrentisiaethau 5 mlynedd ac adfer mawndir i gefnogi'r gadwyn gyflenwi | • Wedi comisiynu cefnogaeth ar ddatgarboneiddio ar y tir sy'n cynnwys canllawiau i'w weithredu ar draws meysydd gwasanaeth perthnasol a chreu adnodd syml i Gynghorau<br>• Dosbarth meistr ar Ddefnydd Tir wedi'i gynnal fis Mawrth<br>• Banc adnoddau ar y wefan. Yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd |